GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

# Gwybodaeth i Gleifion Haematwria

## Adran Wroleg

---

**Beth yw haematwria?**

Gwaed yn yr wrin yw Haematwria.

**Pam rydw i wedi cael fy atgyfeirio at y clinig haematwria?**

Mae eich meddyg wedi trefnu i ni eich gweld naill ai am bod gwaed i'w weld yn eich wrin (haematwria gweladwy) neu am fod prawf wrin wedi dangos bod gwaed yn eich wrin (haematwria anweladwy) er nad ydych wedi ei weld eich hun. Mae angen i ni wirio nad oes achos difrifol am hyn.

**Beth sy'n achosi haematwria?**

Mae nifer o bethau'n achosi haematwria. Mae enghreifftiau'n cynnwys cerrig yn yr aren neu'r bledren, haint wrin, neu waedu o'r brostad. Weithiau, fodd bynnag, gall canser y bledren neu'r aren achosi haematwria.

**Beth fydd yn digwydd pan fyddaf yno?**

Bydd meddyg neu nyrs yn eich gweld ac yn gofyn cwestiynau i chi am eich iechyd cyffredinol ac am unrhyw symptomau oedd gennych pan ddaethpwyd o hyd i'r gwaed. Bydd y canlynol yn cael eu trefnu: profion wrin a gwaed, sgan uwchsain o'ch arennau ac archwiliad ar eich pledren (cystoscopi hyblyg).

**Beth yw diben y prawf wrin?**

Bydd sampl o'ch wrin yn cael ei brofi i weld a oes haint.

**Beth yw diben y profion gwaed?**

Bydd profion gwaed yn cael eu gwneud, oni bai eich bod wedi rhoi sampl o'ch gwaed yn ddiweddar. Maen nhw'n asesu cyflwr eich iechyd yn gyffredinol, ac yn gwirio bod eich arennau'n gweithio'n iawn.

**Beth yw Sgan Uwchsain?**

Bydd hylif yn cael ei roi ar eich bol a'ch ochrau a bydd stiliwr yn cael ei basio ar eich croen i roi delwedd o'ch arennau a'ch pledren. Mae’n brawf diogel a di-boen sy’n galluogi’ch meddyg i chwilio am unrhyw beth anghyffredin. Ychydig o amser sydd ei angen ar gyfer y prawf.

**Beth yw cystoscopi hyblyg?**

Mae telesgop bychan, tua’r un diamedr â phensil, yn cael ei roi yn eich pibell ddŵr (wrethra) a’i basio’n araf i’ch pledren. Mae hyn yn galluogi'ch meddyg/nyrs i weld y tu mewn i'ch pibell ddŵr a'ch pledren a chwilio am unrhyw beth anghyffredin. Byddwch yn derbyn taflen wybodaeth sy’n egluro’r prawf yn fanylach. Bydd y prawf yn para rhyw 10 munud a byddwch yn gallu mynd adref wedyn.

**Fydd hyn i gyd yn digwydd ar yr un diwrnod?**

Fel arfer, bydd, ond weithiau gofynnir i chi gael y profion ar wahanol ddyddiau.

**Fydd angen unrhyw brofion eraill arna i?**

Bydd, weithiau. Weithiau bydd angen profion gwahanol i edrych ar yr arennau a sut maen nhw’n draenio – Wrogram CT. Os bydd angen hyn arnoch, bydd y meddyg neu’r nyrs yn ei drafod gyda chi.

**Apwyntiadau Dilynol**

Wedi i’r archwiliadau gael eu cynnal, byddwch yn derbyn y canlyniadau. Os bydd eich profion yn normal, ni fydd angen i chi ddychwelyd i'r clinig fel arfer. Bydd llythyr yn cael ei anfon at eich Meddyg Teulu i gadarnhau hyn. Os byddwch yn gweld gwaed yn eich wrin eto yn y dyfodol, dylech weld eich Meddyg Teulu eto gan ei bod yn bosibl y bydd angen eich atgyferio eto am archwiliadau pellach.

Os bydd unrhyw beth anghyffredin wedi ei ddarganfod, byddwch yn cael gwybod am hyn ac yn derbyn rhagor o wybodaeth ynghylch unrhyw driniaeth neu archwiliadau pellach sydd eu hangen.

**Os oes gennych gwestiynau neu bryderon, mae rhifau cyswllt y wardiau a’r nyrsys Wroleg isod:-**

**Wardiau Wroleg:-**

D2 Gorllewin:- 01633 – 234103 ( 24 awr )

**Ward Dydd Wroleg:-**

Rhif Ffôn:- 01633 – 656378 / 656377
Llun – Gwener, oriau swyddfa

**Adran Cleifion Wroleg Allanol:-**

Rhif Ffôn:- 01633 – 234979
Llun – Gwener, oriau swyddfa

Laura Reynolds, Ymarferwyr Nyrsio Wroleg:-
Rhif Ffôn:- 01633 – 234758
Llun – Gwener, oriau swyddfa

Sarah Osman, Ymarferwyr Nyrsio Wroleg:-
Rhif Ffôn:- 01633 – 234043
Llun – Gwener, oriau swyddfa

Julie Simpson, Nyrs Wro-oncoleg Arbenigol:-
Rhif Ffôn:- 01633 – 238976

**Cyfeiriadau:**

Tanagho E A McAninch J W 2003. Smiths General Urology

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English".**